Adroddiad yn dilyn monitro

Lefel y gweithgarwch dilynol:  Mesurau Arbennig

Ysgol Gynradd Tanygrisiau

Blaenau Ffestiniog
Gwynedd
LL41 3SU

Dyddiad yr ymweliad:  Mehefin 2026

gan

Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Gynradd Tanygrisiau wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o'r rhestr ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1 Sicrhau bod prosesau hunanwella'r ysgol yn gwerthuso deilliannau'r disgyblion yn drylwyr er mwyn blaenoriaethu meysydd gwella penodol o'r ddarpariaeth i godi safonau

Mae arweinwyr wedi cydweithio'n fwriadus i gryfhau eu prosesau hunanwerthuso fel eu bod yn llywio gwelliant yr ysgol yn fwy systematig ac yn canolbwyntio'n gliriach ar godi safonau. Mae arweinwyr wedi sefydlu cylch hunanwerthuso rheolaidd sy'n cynnwys ystod gynhwysfawr o weithgareddau monitro, fel teithiau dysgu, craffu ar lyfrau, arsylwi gwersi, dadansoddi cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion, a chasglu barn rhanddeiliaid. O ganlyniad, erbyn hyn, mae'r ysgol yn defnyddio tystiolaeth eang a dibynadwy i werthuso ansawdd y ddarpariaeth ac i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwelliant yn fwriadus.

Mae rôl yr uwch dîm rheoli wedi datblygu'n effeithiol. Maent yn cymryd rhan fwy strategol yn y broses hunanwerthuso ac yn dechrau arwain ar agweddau o'r gwaith monitro. Mae staff yn manteisio ar hyfforddiant a chyfleoedd mentora i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o sut i werthuso ansawdd yr addysgu a dadansoddi tystiolaeth yn fwy arfarnol. Mae hyn wedi cynyddu eu perchnogaeth o'r broses hunanwella ac wedi arwain at gryfhau eu dealltwriaeth o'r meysydd sydd angen eu gwella. Gyda'i gilydd, mae hyn wedi cyfrannu'n fedrus at feithrin diwylliant cryf o gynnal trafodaeth broffesiynol ar draws y ffederasiwn. Trwy hyn, mae staff yn miniogi'r ffocws yn fwy clir ar sut i wella ansawdd y ddarpariaeth yn barhaus ac effaith hynny ar gynnydd disgyblion. Mae canfyddiadau monitro yn cael eu rhannu'n amserol â staff ac yn arwain at gamau gweithredu clir.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei rôl fel ffrind beirniadol yn effeithiol drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau monitro. Maent yn herio arweinwyr yn briodol ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella.

## A2 Sicrhau cysondeb yn nulliau addysgu effeithiol er mwyn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn unol â'u hoed a'u cam datblygu

Mae arweinwyr wedi cydweithio'n effeithiol â staff er mwyn cryfhau'r cysondeb mewn dulliau addysgu ar draws y ffederasiwn. Mae'r staff wedi manteisio ar ystod dda o gyfleoedd dysgu proffesiynol fel ymweld ag ysgolion eraill, craffu ar waith disgyblion a chynnal arsylwadau addysgu a dysgu. Mae hyn wedi cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu dealltwriaeth gytûn o nodweddion addysgu effeithiol.

Ar draws y dosbarthiadau, mae athrawon a chymorthyddion yn defnyddio ystod dda o strategaethau addysgu pwrpasol. Maent yn modelu a sgaffaldio'r dysgu'n effeithiol ac yn holi'r disgyblion yn fedrus. Maent yn gwybod pryd i ymyrryd a chefnogi a phryd i gamu'n ôl sydd, yn ei dro, yn hybu datblygiad medrau dysgu annibynnol a datrys problemau disgyblion yn dda. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn wrth drafod eu dysgu, er enghraifft wrth gydweithio mewn grŵp neu gyda phartner.

Mae athrawon yn cyd-gynllunio'n fwriadus i gynnig cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mewn cyd-destunau ystyrlon. Maent yn gwneud defnydd bwriadus o'r amgylchedd ddysgu ac yn sicrhau cydbwysedd synhwyrol o weithgareddau ymarferol a ffurfiol. Mae hyn yn cyfrannu at lefelau da o ymgysylltiad, annibyniaeth a chynnydd ym medrau y rhan fwyaf o ddisgyblion. Er hyn, nid yw lefel yr her bob amser yn ddigon cyson ar draws pob dosbarth er mwyn ymestyn a datblygu meddwl dyfnach ychydig o ddisgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae trefniadau asesu wedi datblygu'n gadarn. Ar y cyfan, mae adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i adnabod yr hyn y maent wedi ei wneud yn dda ynghyd â sut i wella eu gwaith. Darperir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymateb i'r adborth ac mae'r rhan fwyaf yn gwella eu gwaith yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

## A3 Darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth gadarn ar gyfer gwella cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae'r pennaeth yn sicrhau bod staff yn elwa o ystod dda o gyfleoedd dysgu proffesiynol bwriadus. Mae hyn, yn ei dro, yn cyfoethogi dealltwriaeth staff o ddulliau cynllunio ac addysgu cadarn sy'n canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd ysgogol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ar draws ystod ddiddorol o gyd-destunau.

Mae staff y ffederasiwn yn cydweithio'n hynod effeithiol i gynllunio profiadau ysgrifennu a rhifedd sy'n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus.

Yn yr arferion gorau, mae disgyblion yn ymgolli'n llwyr yn eu profiadau ac yn mwynhau eu gweithgareddau. Mae staff yn myfyrio'n gynyddol fwriadus ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion ac yn addasu'r profiadau yn briodol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau ac yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau rhifedd ac ysgrifennu.

Mae athrawon ar draws y ffederasiwn yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y meysydd dysgu. Mae'r disgyblion hŷn, er enghraifft, yn mynd ati i gyfrifo cost adeiladu cerbyd a fyddai'n addas i'w yrru ar y blaned Mawrth wrth ymateb i'r cwestiwn mawr 'Oes rhywun yno?'. Maent yn ystyried ystod o ddulliau cyfrifo yn hyderus ac yn cynnig rhesymau dilys i gefnogi eu dewis o ddull.

Mae staff yn cydweithio'n bwrpasol i ddarparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ysgrifennu at ystod dda o ddibenion. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig yn hyderus ar draws y cwricwlwm gan wneud dewisiadau dychmygus o iaith i gynnal sylw'r darllenydd.

## A4 Darparu cyfleodd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain er mwyn iddynt gyfrannu'n rhagweithiol i fywyd a gwaith yr ysgol, a gwella eu hagweddau at ddysgu

Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant effeithiol lle mae llais y disgybl yn rhan annatod o fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at wneud penderfyniadau ac i ddylanwadu ar eu dysgu wedi datblygu'n sylweddol.

Mae staff yn defnyddio syniadau disgyblion am yr hyn yr hoffent ei ddysgu yn fwriadus wrth gynllunio profiadau dysgu sy'n ennyn a chynnal eu diddordebau'n llwyddiannus. Erbyn hyn, mae disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o sut mae eu cyfraniadau'n dylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu ac yn cyfoethogi eu profiadau a'u gweithgareddau. Maent yn cydnabod bod athrawon yn gwrando ar eu hawgrymiadau ac yn gweithredu'n briodol arnynt, sy'n cyfrannu'n bwrpasol at eu hymgysylltiad, eu cymhelliant a'u hagweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae disgyblion yn ymgymryd â'u rolau arwain yn hyderus ac yn cyfrannu'n effeithiol at wneud penderfyniadau sy'n gwella agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae aelodau'r gwahanol bwyllgorau yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n gydwybodol ac yn dangos ymrwymiad cryf i'w rolau. Mae'r rhan fwyaf yn deall bod eu cyfraniadau'n dylanwadu ar benderfyniadau'r ysgol, gan ddatblygu eu medrau arwain a chyfathrebu a'u gallu i gydweithio'n effeithiol.

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.